Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AC / AM Cadeirydd / Chair
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

5 Rhagfyr 2018

Annwyl Lynne

Datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ein rhaglen o ddiwygiadau addysgol a chyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Ers ein diweddariad ffurfiol diwethaf ym mis Rhagfyr 2017, rydym wedi gwneud cynnydd da. Rwy'n hyderus ein bod mewn sefyllfa gadarnhaol, gyda phrif gam dylunio'r cwricwlwm ar y trywydd cywir i gael ei gwblhau yn ôl y bwriad yn y Flwyddyn Newydd.

Credaf fod y ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth ym mhob rhan o'r sector gydag ysgolion, Addysg Uwch, Addysg Bellach, arbenigwyr addysgol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol, yn gryfder allweddol. Mae'n ein galluogi i sicrhau bod ysgolion wrth wraidd y gwaith datblygu, yn dwyn ynghyd ymarfer, tystiolaeth a pholisi, yn hybu ymdeimlad o berchenogaeth dros y diwygio ac yn cefnogi newid cynaliadwy.

Mae cwricwlwm sy'n gweddnewid yn rhan ganolog o'n gwaith diwygio ym mhob rhan o'r system addysg. Yn cefnogi'r gwaith o'i gyflwyno mae pedwar amcan galluogi hanfodol i ysgogi newid yn y system:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel;
- Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau;
- Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant;
- Trefniadau atebolrwydd ac asesu cadarn i ategu system hunanwella i ysgolion.

Bydd y rhaglen ddiwygio uchelgeisiol hon yn effeithio ar bron bob rhan o'r system ysgolion, ac mae'r diweddariad hwn i'r Pwyllgor yn cynnwys cynnydd mewn perthynas â'n hamcanion cyffredinol a'n hamcanion galluogi, a byddaf hefyd yn mynd i'r afael â chwestiynau ymgynghori'r Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Aelodau am ymgysylltu â rhai o'n hysgolion Arloesi i weld y gwaith da a wneir ganddynt. Caf ar ddeall y bydd rhai ymweliadau'n cael eu cynnal ar ôl fy adroddiad ysgrifenedig. Gobeithio bod y rhai sydd wedi gallu ymweld â'n hysgolion wedi cael cyfle defnyddiol i drafod y gwaith y maent yn ei wneud yn uniongyrchol ag ymarferwyr ac, i'r gweddill ohonoch, gobeithio y cewch y cyfle i gael profiad o hyn cyn bo hir.

1. Llywodraethu
Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru sy'n llewyrchus a diogel, sy'n iach ac egnïol, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, ac sy'n unedig a chysylltiedig, fel y nodir yn ein strategaeth allweddol, *Ffyniant i Bawb.*

Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer addysg, *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, yn nodi sut y bydd y system ysgolion yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod hyd at 2022 gyda nod allweddol i godi safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol.

Yn ogystal â'n gwaith ymgysylltu ac ymgynghori arferol â rhanddeiliaid allweddol, mae gennym Fframwaith Llywodraethu cadarn ar waith i gefnogi'r broses o gyflwyno ein rhaglen o ddiwygiadau addysgol o dan genhadaeth ein cenedl a'r penderfyniadau a wneir gen i fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Ar gyfer penderfyniadau ar lefel rhaglen, yr elfennau allweddol yw:

Bwrdd Newid – mae'n goruchwylio'r rhaglen yn strategol gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd diwygio allweddol sef y cwricwlwm; dysgu proffesiynol; ac atebolrwydd. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gadarnhau penderfyniadau mewn perthynas â chenhadaeth ein cenedl cyn eu cyflwyno i mi wneud penderfyniad terfynol arnynt. Mae'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd ynghylch materion a phenderfyniadau allweddol ac ynghylch materion a uwchgyfeirir o'r Bwrdd Cyflawni. Mae'n cyfarfod bob dau fis fel arfer, ond cynhelir cyfarfodydd yn amlach os bydd angen a chaiff penderfyniadau eu gwneud y tu allan i'r pwyllgor lle y bo hynny'n angenrheidiol. Ymhlith aelodau'r Bwrdd Newid mae uwch gynrychiolwyr yr haen ganol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Bwrdd Cyflawni – mae'n rheoli a datblygu busnes gweithredol y rhaglen, yn monitro'r gwaith cyflawni a'r perfformiad, yn sicrhau y caiff prosesau cadarn eu dilyn ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenderfyniadau i'w cadarnhau gan y Bwrdd Newid. Gall uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd Newid i gael sicrwydd ychwanegol. Mae'r Bwrdd yn nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ac yn awgrymu mesurau lliniaru i fynd i'r afael â nhw. Mae'n cwrdd bob mis ac ymhlith ei aelodau mae cynrychiolwyr yr haen ganol ar lefel cyfarwyddwr cynorthwyol a lefel gyfatebol.

Grŵp Cynghori Annibynnol – caiff y grŵp ei gadeirio gan yr Athro Donaldson, ac mae'n rhoi cyngor arbenigol annibynnol i'r Bwrdd newid, yn rhoi adborth technegol ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gan y grŵp swyddogaeth gynghori, gan ymgysylltu ag Uwch Swyddogion Cyfrifol a dylanwadu ar benderfyniadau, mewn cysylltiad â'r Bwrdd Cyflawni.

Grŵp Rhanddeiliaid Strategol - mae'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru, yn ymgysylltu â'r Bwrdd Newid a'r Bwrdd Cyflawni ac yn cefnogi'r gwaith o gyfleu negeseuon allweddol, gan gynnwys drwy aelodau'r cyrff y mae'n eu cynrychioli. Yn ddiweddar, cafodd ei is-grŵp Plant a Phobl Ifanc ei ailsefydlu'n benodol i ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc ar y daith ddiwygio. Ymhlith aelodau'r is-grŵp mae cynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Plant yng Nghymru, Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru, a Chwaraeon Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru dîm Rhaglen sy'n mynd ati'n uniongyrchol i gefnogi'r gwaith o lywodraethu a rheoli ein blaenoriaethau o dan genhadaeth ein cenedl.
Mae gwaith y tîm yn cynnwys cynllunio'r rhaglen; nodi a rheoli risgiau, materion a dibyniaethau; gwasanaethu'r Byrddau; a hwyluso'r gwaith o gasglu a choladu gwybodaeth, yn ogystal â'r llif o wybodaeth rhwng elfennau.

Mae gan Lywodraeth Cymru ei threfniadau corfforaethol ei hun ar gyfer penderfyniadau ynghylch materion mewnol. Yn ogystal â'r trefniadau cwricwlwm sy'n gweddnewid a amlinellir isod, ar lefel rhaglen, mae trefniadau penodol hefyd ar waith ar gyfer meysydd atebolrwydd, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth er mwyn rheoli a chefnogi'r ffrydiau gwaith. Mae'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu a Grŵp Cydlyniaeth y Cwricwlwm yn gweithredu yn y cyd-destun hwn.

Grŵp Cwricwlwm ac Asesu – Rôl y Grŵp yw llywio a chynorthwyo'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a'r fframwaith asesu newydd; sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn parhau i fod yn driw i'r egwyddorion a nodir yn *Dyfodol Llwyddiannus;* a chefnogi a phrofi ymarferoldeb modelau ar gyfer diwygio fel y'u nodir yn *Cwricwlwm i Gymru: cwricwlwm am oes*. Dwy o'i dasgau penodol allweddol yw sicrhau bod buddiannau a gofynion rhanddeiliaid allanol yn cael eu hystyried drwy gydol y broses dylunio a datblygu, a chynnig tystiolaeth annibynnol a chyfeiriad a her hyderus i'r Rhwydwaith Ysgolion Arloesi.

Grŵp Cydlyniaeth y Cwricwlwm – Diben y Grŵp Cydlyniaeth yw dod ag arweinwyr pob grŵp Maes Dysgu a Phrofiad ynghyd ag Estyn, Cymwysterau Cymru, prosiect Camau a'r Consortia er mwyn sicrhau y caiff y cwricwlwm a'r trefniadau asesu eu datblygu mewn modd cydlynol. Y Grŵp hwn, sy'n cyfarfod bob mis, yw'r prif fforwm ar gyfer craffu'n fanwl ar waith grwpiau'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a gwella ei ansawdd, ac mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd Cyflawni lle y bo materion penodol yn codi y mae angen gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

I gefnogi'r penderfyniadau ynghylch y cwricwlwm sy'n gweddnewid rwy'n gyfrifol amdanynt fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, gallaf fod yn sicr bod y Grŵp Cydlyniaeth, fel grŵp cynrychioladol arbenigol, yn cynnig mewnbwn beirniadol mewn perthynas â pholisi, bod y Grŵp Cyflawni'n sicrhau y caiff prosesau cadarn eu dilyn yn erbyn y mewnbwn hwnnw, a bod y Bwrdd Newid yn sicrhau bod ein blaenoriaethau a diwygiadau addysgol cysylltiedig yn cael eu hystyried, ac yn sicrhau cysondeb â'r blaenoriaethau a'r diwygiadau hynny. Rwyf hefyd wedi diwygio fy Mwrdd Polisi Gweinidogol i gynnwys rhanddeiliaid allanol, gan gynnig her a chyngor ar faes diwygio polisi gwahanol ym mhob cyfarfod.

Strategaeth gyfathrebu – Ffocws allweddol ein strategaeth gyfathrebu hyd yma yw sicrhau bod pob ysgol yn cael cyfle i gael gwybod yn llawn am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm, a bod y broses yn gwbl dryloyw. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys diweddariadau rheolaidd drwy ein hamrywiaeth gynyddol o sianelau digidol *AddysgCymru* gan gynnwys Facebook, Twitter, diweddariadau rheolaidd ar gyfer blog *Cwricwlwm i Gymru* a lansio podlediad *AddysgCymru* newydd. Mae defnyddio cynnwys digidol diddorol gan gynnwys fideos a chyfraniadau at y blog wedi arwain at dwf cyson yn nifer yr ymwelwyr ac mewn diddordeb yn y cwricwlwm. Rwyf hefyd yn cynnal sesiynau holi ac ateb byw yn rheolaidd ar Twitter sy'n arwain at lefel dda o ymgysylltu; roedd sesiwn mis Tachwedd yn canolbwyntio ar y cwricwlwm newydd.

Mae ymgysylltu â phenaethiaid yn rhan hanfodol o'r gwaith o gyd-gynhyrchu'r cwricwlwm newydd a'u paratoi ar gyfer y newidiadau a wneir. Yn ystod 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a'r consortia gynadleddau ar y cyd ar gyfer penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn eu cynnwys yn y broses o ddatblygu model atebolrwydd newydd i ategu'r cwricwlwm newydd, a chynadleddau i benaethiaid yn yr hydref yn canolbwyntio ar y

dull gweithredu newydd mewn perthynas â dysgu proffesiynol. Mae codi statws y proffesiwn yn rhan ganolog o genhadaeth ein cenedl ac roedd y Gwobrau Addysgu Proffesiynol yn 2018 yn gwobrwyo arloesed a rhagoriaeth yn y proffesiwn yng Nghymru. Gwnaethant hefyd lwyddo i ddenu cynnydd o 20% mewn enwebiadau.

Fel rhan o'i waith parhaus, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried rhywfaint o'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi hyd yma ar flog Cwricwlwm i Gymru (https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/) ac o dan adrannau perthnasol ar dudalennau addysg gwefan Llywodraeth Cymru (https://beta.llyw.cymru/addysg-a-sgiliau), gan gynnwys rhifynnau o gylchlythyr Dysg (http://learning.gov.wales/dysg-newsletters/?lang=cy).

Diweddariad – Cyflawni Cenhadaeth Ein Cenedl

2. Cwricwlwm sy'n gweddnewid
Ym mis Medi 2017, yn dilyn adborth gan y proffesiwn ac ar ôl edrych ar yr arfer gorau yn rhyngwladol, gwnaethom ddiwygio'r amserlen ar gyfer datblygu a chyflwyno'r cwricwlwm a'r fframwaith asesu newydd. Cafodd y penderfyniad gryn dipyn o groeso. Rydym ar y trywydd cywir i gyhoeddi'r cwricwlwm drafft ym mis Ebrill 2019. Caiff y wybodaeth ei chyflwyno mewn un rhan gyhoeddus o wefan Hwb a fydd yn galluogi pob defnyddiwr i weld y cwricwlwm newydd a rhoi adborth arno.

Yn unol â *Dyfodol Llwyddiannus*, bydd y Cwricwlwm a'i drefniadau asesu yn seiliedig ar ddilyniant. Bydd y Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cynnwys Deilliannau Cyflawniad; a fydd yn pennu disgwyliadau ar gyfer dysgwyr, ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac yn sail ar gyfer asesu.

Bydd Camau Cynnydd yn cael eu disgrifio ar bum pwynt yn y continwwm dysgu, a fydd yn cyfateb yn fras i'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed. Ar gyfer pob un o'r Camau Cynnydd, byddwn yn nodi Deilliannau Cyflawniad a fydd yn disgrifio'r agweddau pwysicaf ar ddysgu a phrofiadau i ddysgwyr eu cyflawni er mwyn gwneud cynnydd sicr yn eu dysgu.

Cwricwlwm – Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod allweddol a phrysur yn y broses o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith o ddatblygu Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi cyrraedd ei gyfnod mwyaf dwys, gyda llawer o waith hynod dechnegol yn cael ei wneud. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Grwpiau MDPh wedi gwneud y canlynol:

- datblygu datganiadau “Yr Hyn sy'n Bwysig”, sef y cysyniadau allweddol lefel uchel ar gyfer pob MDPh a ffyrdd o drefnu'r dysgu ar draws y cwricwlwm;
- ymgysylltu ag arbenigwyr disgyblaethau i herio a chefnogi eu gwaith dylunio
- ymgysylltu ag arbenigwyr cenedlaethol a rhyngwladol ym maes dylunio cwricwlwm er mwyn sicrhau tystiolaeth a her annibynnol;
- amlinellu'r wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd hanfodol sydd eu hangen i gyflawni datganiadau “Yr Hyn sy'n Bwysig” a'r pedwar diben, a gweithio i sicrhau bod y cysylltiadau a'r dibyniaethau rhwng pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn cael eu nodi;
- llunio deilliannau cyflawniad ar gyfer pob cam cynnydd;
- Mae'r Arloeswyr wedi bod yn cydweithio'n agos ag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow sydd wedi dilyn dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel rhan o brosiect CAMAU;
- datblygu canllawiau er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i ddefnyddio'r cwricwlwm newydd i gefnogi dysgu ac addysgu, a chydweithio â golygwyr dwyieithog er mwyn sicrhau y caiff y cwricwlwm ei ddatblygu yn y ddwy iaith.

Rydym wedi cyhoeddi nifer o ddiweddariadau gan gynnwys diweddariad allweddol ym mis Mehefin eleni drwy rifyn arbennig o Dysg i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r cwricwlwm newydd gan gynnwys y model cynnydd dysgwyr. Mae'r diweddariad i'w weld yn y ddolen ganlynol:
https://content.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/bulletins/1f8fa12

Hefyd, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Mae'r diweddariad i'w weld yn y ddolen ganlynol:
https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/newcurriculumandassessmentarrangements/?skip=1&lang=cy

Wrth i'r cwricwlwm gael ei ddatblygu, mae gan ysgolion Arloesi rôl allweddol o ran ymgysylltu â gweithwyr addysg proffesiynol ym mhob rhan o'r sector gyfan i rannu, profi, datblygu a gwella eu syniadau yn ystod y cam dylunio hwn. Mae'r rolau hyn wedi cael eu nodi mewn briff craidd a rannwyd â'r Ysgolion Arloesi. Ar hyn o bryd, mae'r Arloeswyr yn datblygu canllawiau ar y ffordd y bydd y trefniadau asesu'n cefnogi'r dysgu yn y cwricwlwm newydd.

Mae gan gonsortia rhanbarthol hefyd rôl allweddol o ran rhannu cynnydd â phob ysgol a helpu athrawon i wireddu'r cwricwlwm newydd wrth iddo ddatblygu. Mae arloeswyr dysgu proffesiynol wedi dechrau ‘gwneud synnwyr’ o'r cynnwys o fewn eu hysgolion a'u clystyrau.

Pwynt adolygu diweddaraf – Cynhaliwyd y pwynt adolygu diwethaf ar gyfer y Grŵp Cwricwlwm ac Asesu ar y cam hwn o'r gwaith ddechrau mis Tachwedd. Rhoddodd y Grŵp adborth cadarnhaol ar y gwaith dylunio a datblygu hyd yma. Gwnaeth sylwadau a myfyrdodau manwl ar bob Maes Dysgu a Phrofiad, y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd, a'r canllawiau cyffredinol. Gwnaeth y Grŵp hefyd drafod goblygiadau posibl y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm i elfennau diwygio ehangach wrth i ni symud tuag at y cam adborth ym mis Ebrill.

Gweithgor Asesu – Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i bennu egwyddorion asesu ar gyfer y cwricwlwm newydd, ym mis Hydref gwnaethom sefydlu gweithgor, sy'n cynnwys nifer o arloeswyr o bob MDPh yn ogystal ag arloeswyr o Grŵp Llywio Asesu a Dilyniant Llinyn Un, Estyn a Cymwysterau Cymru, i ganolbwyntio ar ddatblygu'r trefniadau asesu newydd. Nod cyffredinol y Grŵp Asesu yw llywio a chynorthwyo'r gwaith o ddylunio a chyflwyno trefniadau asesu newydd; gan sicrhau eu bod yn cefnogi'r dibenion addysg fel y'u nodir yn Dyfodol Llwyddiannus, a'u bod yn glynu wrth yr egwyddor y dylai gwaith asesu bob amser fod yn gymesur â'i fuddiannau.

Bydd gan ein trefniadau asesu yn y dyfodol bwyslais o'r newydd ar asesu ar gyfer dysgu fel nodwedd hanfodol ac annatod o ddysgu ac addysgu. Ffocws canolog ein trefniadau asesu yn y dyfodol fydd sicrhau bod pob dysgwr yn deall sut mae'n perfformio a'r hyn sydd angen iddo ei wneud nesaf er mwyn gwneud cynnydd a gwireddu ei botensial.

Asesu wedi'i Bersonoli Ar-lein – Mewn ymateb i'r argymhelliad yn Dyfodol Llwyddiannus i ddatblygu dulliau asesu arloesol a rhyngweithiol, ac yn unol â'r ymrwymiadau yn Cenhadaeth ein Cenedl, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddechrau ar y broses o gyflwyno asesiadau ymaddasol wedi'u personoli i gymryd lle'r profion darllen a rhifedd a gynhelir ar bapur.

Mae'r asesiadau newydd yn addasu lefel anhawster y cwestiynau ar gyfer y dysgwr a asesir, sy'n rhoi gwybodaeth fanylach sydd wedi'i thargedu'n well i athrawon ac ysgolion am berfformiad eu dysgwyr. Maent hefyd yn lleihau faint o amser a gymerir i ddarparu'r adborth o safon hwn, sy'n galluogi dysgwyr ac athrawon i gynllunio'r camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn symud ymlaen.

Aeth yr asesiadau rhifedd gweithdrefnol yn weithredol ar 5 Rhagfyr, a bydd yr asesiadau darllen yn dilyn yn 2019/20 a rhesymu rhifyddol yn 2020/21.

Deddfwriaeth - Rydym yn cynnig y bydd y cwricwlwm newydd wedi'i ategu gan Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) a bwriedir i'r Papur Gwyn ar gyfer y Bil a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft gael eu cyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

Cymraeg – Fel rhan o Genhadaeth ein Cenedl ac ar y cyd â'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm sy'n gweddnewid, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddatblygu dull gweithredu sy'n gweddnewid mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg gyda'r nod o sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu siarad yr iaith pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050* ac argymhelliad yr Athro Sioned Davies, mae grŵp MDPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn gweithio'n seiliedig ar ddatblygu un continwwm ar gyfer dysgu Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill. Bydd hwn ar gael i roi adborth arno ym mis Ebrill 2019. Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r ddogfen Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun gweithredu 2017-21 sy'n nodi ein cynlluniau i wireddu gweledigaeth *Cymraeg 2050* i ddatblygu cwricwlwm sy'n gweddnewid a fydd yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol yn 16 oed.

Y Cyfnod Sylfaen – Rydym wedi bod yn gweithio'n galed gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod anghenion ein dysgwyr ieuengaf yng nghwricwlwm presennol y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Er y bydd y cwricwlwm newydd yn cael gwared ar rwystrau artiffisial, gan gefnogi pontio drwy addysg, mae angen i'r cwricwlwm sy'n datblygu adlewyrchu'r cryfderau y mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'u cynnig i fyd addysg yng Nghymru, a hynny drwy addysg gydlynol a pharhaus i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi atgyfnerthu gwaith y Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gynrychiolaeth gref o'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir, consortia, sefydliadau mantell nas cynhelir, academia ac ysgolion Arloesi.

Rydym hefyd wedi recriwtio arbenigwyr annibynnol i adolygu cynnydd y gwaith hwn a dilysu i ba raddau y mae ethos, egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen wedi cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm newydd. Rydym yn hyderus y gallwn atgyfnerthu ein dull gweithredu mewn perthynas ag addysg blynyddoedd cynnar, ac adeiladu ar gryfderau'r Cyfnod Sylfaen drwy'r gwaith hwn, er mwyn sicrhau bod anghenion ein dysgwyr ieuengaf yn cael eu diwallu'n llawn yn y cwricwlwm newydd.

Yn y dyfodol, byddwn yn dechrau gweithio gyda phartneriaid yn ystod gwanwyn 2019 i ystyried sut y gallwn adeiladau ar Broffil y Cyfnod Sylfaen ar ei ffurf bresennol er mwyn sicrhau y gallwn gysoni trefniadau asesu yn y blynyddoedd cynnar yn ddi-dor â'r cwricwlwm newydd i gefnogi ymarfer. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith hwn yn gynhwysol ac yn ystyried anghenion ein plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

3. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

Credwn fod llwyddiant y cwricwlwm newydd yn dibynnu ar ein pedwar amcan galluogi. Wrth i ni nesáu at garreg filltir allweddol yn y gwaith o ddylunio'r cwricwlwm newydd, bydd y cam diwygio nesaf yn canolbwyntio'n drwm ar weithredu er mwyn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yn gallu ei gyflwyno'n hyderus.

Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth – Gwnaethom weithio gyda chydweithwyr yn y consortia a phartneriaid eraill i ddatblygu'r pum safon broffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth – addysgeg, cydweithio, arloesi, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth. Mae'r safonau newydd yn canolbwyntio ar elfennau hanfodol gwaith pob athro. Mae'r safonau wedi'u cysoni â phedwar diben y cwricwlwm a'r dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol. Maent yn cynnwys disgrifyddion sy'n nodi dyhead a ffocws ar gyfer archwilio, myfyrio a dysgu proffesiynol gydol gyrfa.

Cyhoeddwyd y safonau ym mis Medi 2017 ac mae pob athro newydd gymhwyso (ANGau) sy'n dilyn y broses sefydlu ar hyn o bryd wedi bod yn eu defnyddio. Ers mis Medi 2018 mae pob athro ac arweinydd wedi bod yn defnyddio'r safonau.

Mae swyddogion Addysgu Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn cydweithio â'r proffesiwn i lunio cyfres o safonau ar y cyd ar gyfer pawb sy'n cynorthwyo addysgu, gan ddefnyddio'r un model â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'r model, a ddatblygwyd drwy weithdai i ymarferwyr a gynhaliwyd ledled Cymru, wedi cael ei rannu â chonsortia, aseswyr Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, undebau'r gweithlu a rhanddeiliaid eraill. Mae hefyd wedi cael ei dreialu mewn nifer fach o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig a defnyddiwyd yr adborth i lunio'r safonau drafft presennol. Cyhoeddwyd y safonau drafft yn ystod tymor yr haf ac, ar 29 Tachwedd, cyhoeddais ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y safonau drafft.

Rydym hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos ag arweinwyr sefydlu yn y consortia i gefnogi'r broses o roi'r safonau newydd ar waith gydag ANGau. Mae hyn wedi cynnwys edrych o'r newydd ar rôl safonau a mentora yn y broses sefydlu. Y canlyniad oedd symud i ffwrdd o ddull 'ticio blychau' a rhoi pwyslais ar ddefnyddio'r safonau i fyfyrio ar brofiadau proffesiynol gyda chymorth mentora o safon uchel. Er mwyn cwblhau'r broses sefydlu'n llwyddiannus, rhaid i ANGau ddangos eu bod yn bodloni pob un o'r disgrifyddion perthnasol yn y safonau.

Rydym hefyd wedi dechrau gweithio gyda chonsortia i wneud y broses sefydlu'n fwy trwyadl a gwerthfawr drwy ffurfioli'r ffordd y caiff y broses sefydlu ei safoni a'i chymedroli ledled Cymru.

Ffocws arall yw'r newydd-ddyfodiaid sy'n cael eu recriwtio i'r proffesiwn addysgu, sef maes lle rwy'n cydnabod ein bod wedi tanberfformio yn y gorffennol gyda phryderon yn cael eu codi mewn perthynas ag ystadegau recriwtio, canfyddiadau arolygiadau a safon y graddedigion sy'n dod drwy'r system. Rwyf wedi gwneud y broses achredu'n fwy trwyadl drwy rymuso Cyngor y Gweithlu Addysgu i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) unigol. Y nod yw codi safon hyfforddiant athrawon, a hynny yn unol â'r safonau proffesiynol newydd a'r model cenedlaethol newydd ar gyfer dysgu proffesiynol. Bydd rhaglenni AGA sydd wedi'u hachredu o'r newydd yn dechrau ym mis Medi 2019.

Mae'r partneriaethau AGA newydd hyn yn cynrychioli'r newid sylweddol gwirioneddol sydd ei angen yn y sector. Byddant yn cynllunio ac yn cyflwyno cyrsiau sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru, ac yn mynd i'r afael â'r Chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

Rydym yn gwneud cynnydd da gyda'r cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) rhan-amser newydd sy'n cyfuno astudiaethau ar-lein â thiwtorialau a seminarau, sef rhywbeth sydd â'r potensial i wneud i Gymru arwain y byd yn y maes hwn. Bydd hyn yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i gynnal eu hymrwymiadau presennol tra byddant yn astudio. Hefyd, rydym yn datblygu Llwybr Seiliedig ar Gyflogaeth newydd, lle y gall athrawon dan hyfforddiant gael eu cyflogi gan ysgolion o'r cychwyn cyntaf. Caiff hyn ei dargedu mewn ffordd sy'n helpu i fynd i'r afael â phrinder athrawon mewn ysgolion yn ein rhanbarthau, ar y cyd â'r cwrs TAR newydd.

Mae angen i ni gael partner o'r radd flaenaf sy'n rhannu ein huchelgeisiau a'n gweledigaeth ar gyfer AGA yng Nghymru i weithio gyda ni i ddatblygu a chyflwyno'r cwrs TAR rhan-amser a'r llwybr seiliedig ar gyflogaeth. Mae ymarfer caffael yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir i'r contract gael ei ddyfarnu ym mis Chwefror 2019. Rydym yn disgwyl gweld y myfyrwyr cyntaf yn ymuno â'r rhaglenni o flwyddyn academaidd 2019/20 ymlaen.

Er mwyn helpu penaethiaid i reoli eu llwyth gwaith a neilltuo mwy o'u hamser i addysgu a dysgu, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Leol i ddarparu £1.2 miliwn dros ddwy flynedd academaidd er mwyn lleihau baich diangen drwy benodi rheolwyr busnes ysgolion.

Mae dros 100 o ysgolion yn cael eu cefnogi drwy'r cynlluniau peilot. Fodd bynnag, gan gydnabod bod y cynnydd wedi bod yn arafach nag a ddymunir, rydym hefyd yn bwriadu lansio menter newydd i leihau llwyth gwaith dros y misoedd sydd i ddod.

Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol – Ni ellir cyflwyno ein cwricwlwm newydd heb weithlu addysgu o safon uchel. Dyna pam rwyf wedi lansio Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol sy'n datblygu gallu o addysg gychwynnol athrawon ymlaen ac sydd wedi'i wreiddio mewn ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio effeithiol. Rydym yn disgwyl trawsnewid syfrdanol yn y ffordd y mae ein hymarferwyr a'n harweinwyr yn meddwl am eu dysgu proffesiynol yn sgil y cwricwlwm newydd ac mae angen i ni roi cymorth i ysgolion er mwyn eu galluogi i wneud y newid sylweddol hwn.

Ym mis Tachwedd eleni, cyhoeddais ein buddsoddiad mwyaf mewn cymorth i athrawon fel rhan o'r Dull Gweithredu Cenedlaethol. O ganlyniad i hyn, bydd £9 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn 2018-19, a £15 miliwn yn 2019-20, er mwyn helpu athrawon i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y cwricwlwm newydd a sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar ddysgu'r disgyblion gan flaenoriaethu llesiant athrawon yn ystod y cyfnod arwyddocaol hwn o newid. Caiff cyllid ei ddyrannu i'r rheng flaen a'i dargedu mewn ffordd sy'n creu a rhyddhau capasiti ar lefel ysgol a chlwstwr fel bod modd ymgymryd â dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd mewn modd strwythuredig sydd wedi'i reoli, gyda digon o adnoddau ar gael.

Mae ein dull gweithredu “gwnaed yng Nghymru” ar gyfer dysgu proffesiynol yn bwynt allweddol ar ein taith ddiwygio. Mae'n dwyn ynghyd ein safonau proffesiynol newydd, y dull gweithredu *Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu*, a model dysgu proffesiynol, i greu gweledigaeth sy'n addas ar gyfer ein system sy'n esblygu. Pan gaiff y cwricwlwm drafft ei lansio ym mis Ebrill 2019, byddwn yn datblygu ein dealltwriaeth o'r heriau dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o'i roi ar waith mewn ysgolion ymhellach.

Rydym eisoes yn buddsoddi mewn dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau y gall y gweithlu feithrin ei sgiliau iaith Gymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Drwy gonsortia rhanbarthol, byddwn hefyd yn annog ysgolion i gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliannau, gan gynnwys ystyried cynllunio'r gweithlu, ac yn datblygu diwylliant ac ethos mewn ysgolion i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae swyddogion Addysg Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar hyn o bryd i roi systemau priodol ar waith ar gyfer monitro effaith y Dull Gweithredu Cenedlaethol sy'n datblygu ar lawr gwlad.

Adnoddau ategol – Cafodd y broses o lansio'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn ystod cynadleddau addysg tymor yr hydref ei hategu gan animeiddiad esboniadol newydd a oedd yn egluro'r cysylltiadau â'r broses ehangach o ddiwygio'r cwricwlwm, brandio nodedig y Dull Gweithredu Cenedlaethol ac adnod Diemwnt 9

rhyngweithiol er mwyn annog ymarferwyr i ystyried blaenoriaethau dysgu proffesiynol uniongyrchol sy'n cyd-fynd â'r Dull Gweithredu yn eu lleoliadau eu hunain.

Bydd adnoddau pwrpasol ychwanegol a ddatblygwyd i ategu'r cynadleddau addysg, gan gynnwys fideos gydag academyddion ac arbenigwyr arweiniol yn siarad ynddynt a phapurau ymchwil Sefydliadau Addysg Uwch ar gael yn ehangach ar Hwb. Caiff yr adnoddau newydd eu cyflwyno'n raddol o fis Ionawr 2019 ymlaen.

Yn dilyn digwyddiad cenedlaethol i arloeswyr yn yr hydref, cynhyrchwyd cyfres o fideos vox pop yn cynnwys arloeswyr dysgu proffesiynol, arweinwyr dysgu proffesiynol consortia rhanbarthol a phartneriaid ym maes Addysg Uwch er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yr arloeswyr ac atgyfnerthu'r ffordd y bydd y Dull Gweithredu newydd yn ategu'r cwricwlwm newydd.

Sicrhau bod y system yn barod drwy ddysgu proffesiynol – Bydd anghenion uniongyrchol o ran datblygu dysgu proffesiynol yn amrywio yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol ac anghenion penodol ymarferwyr unigol.

Rydym bellach ar y cam yn y rhaglen lle rydym, drwy Ymholiad Proffesiynol Cydweithredol Beirniadol dan arweiniad arloeswyr gyda chymorth partneriaid Addysg Uwch, yn nodi anghenion ymarferwyr er mwyn sicrhau bod y cynnig dysgu proffesiynol yn y rhanbarthau yn ymateb i ofynion sy'n dod i'r amlwg.

Bydd gan y rhanbarthau amrywiaeth o ffyrdd o rannu canlyniadau'r broses Ymholiad Proffesiynol Cydweithredol Beirniadol fel rhan o'r cynnig Dysgu Proffesiynol, a bydd swyddogion Addysg Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rhanbarthau er mwyn sicrhau bod y gydberthynas rhwng arloeswyr (ac ysgolion eraill sydd wedi arwain y ffordd) a'r gymuned ehangach o ysgolion yn cyflawni ar gyfer ysgolion ym mhob rhan o'r system.

Y prif feysydd y bydd y Rhaglen Dysgu Proffesiynol gychwynnol yn canolbwyntio arnynt fydd canlyniad y broses o ddatblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ond, yn sicr, byddant yn cynnwys cyfleoedd dysgu proffesiynol i bob ymarferydd mewn perthynas â'r canlynol:

- Cwricwlwm sy'n seiliedig ar ddibenion yn hytrach nag ymdriniaeth – beth sy'n newid o ran cynllunio, gwireddu ac asesu'r dysgu?
- Y chwe Maes Dysgu a Phrofiad – symud tuag at fodelau rhyngddisgyblaethol o addysgu a dysgu, ac archwilio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar brosiectau;
- Symud o'r hyn sy'n bwysig i'r hyn a ddysgwn – gwireddu'r cwricwlwm gyda dilysrwydd a pherthnasedd lleol;
- Y goblygiadau i ymarfer sy'n gysylltiedig â'r dulliau addysgegol a gynigir yn Dyfodol Llwyddiannus – pa newidiadau yn yr ystafell ddosbarth?
- Ymgorffori cynnwys newydd a chydberthnasau newydd rhwng cynnwys ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad;
- Creu'r cwricwlwm ar lefel ysgol – sgiliau newydd ar gyfer y dull gweithredu newydd;
- Ailystyried asesu a dilyniant;
- Symud o ddata mawr i wybodaeth am gynnydd disgyblion sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mae gan y consortia rôl allweddol o ran cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol y gall ysgolion fanteisio arnynt, ac sy'n gallu eu paratoi ar gyfer gwireddu'r cwricwlwm ar lefel leol a rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys y gwaith a arweinir ar hyn o bryd gan arloeswyr y cwricwlwm a'r arloeswyr dysgu proffesiynol, i waith cynghorwyr arbenigol mewn rhanbarthau a gwaith y cynghorwyr herio.

Mae swyddogion Addysg Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Rheolwyr Gyfarwyddwyr consortia a'r arweinwyr rhanbarthol ar gyfer dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod y consortia'n dilyn dull gweithredu cyson mewn perthynas â dysgu proffesiynol; eu bod yn bodloni'r gorchmynion ansawdd; a bod pob ysgol yn gallu cael gafael ar lefel gyson o ddarpariaeth a chymorth.

Ymgysylltu ag ysgolion – Mae ysgolion arloesi dysgu proffesiynol wedi cyflawni gwaith ymgysylltu manwl â phartneriaid clwstwr i ystyried goblygiadau cychwynnol y cwricwlwm newydd o ran dysgu proffesiynol.

Dechreuodd y gwaith hwn yn ystod Tymor y Gwanwyn 2018 yn y lle cyntaf, pan wnaeth yr arloeswyr dysgu proffesiynol gefnogi cylchoedd ymgysylltu a arweiniwyd gan bartneriaeth CAMAU er mwyn archwilio'r fframwaith dilyniant sy'n datblygu i ategu'r cwricwlwm newydd. Ers Tymor yr Hydref, mae arloeswyr dysgu proffesiynol wedi cydweithio â phartneriaid ym maes Addysg Uwch i ddyfnhau a chyfoethogi eu gwybodaeth am anghenion dysgu proffesiynol sy'n datblygu drwy gyfres o ymholiadau. O Dymor y Gwanwyn ymlaen, bydd arloeswyr dysgu proffesiynol yn ymestyn ffocws eu hymholiadau i weithio gydag ysgolion clwstwr a'r rhwydwaith addysg ehangach, er mwyn dechrau ffurfio'r sail dystiolaeth i gyfoethogi'r broses barhaus o gyflwyno'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Er mwyn galluogi ysgolion y tu allan i'r rhwydwaith arloesi i gymryd rhan yn y broses hon, bydd cyllid clwstwr ychwanegol yn cael ei ddarparu er mwyn cynnig cymhelliant ac annog ysgolion clwstwr i gymryd rhan mewn ymholiadau dysgu proffesiynol a arweinir gan yr arloeswyr dysgu proffesiynol.

4. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau
Yn 2014, dywedodd OECD y dylai Cymru drin datblygu arweinyddiaeth y system fel un o brif sbardunau diwygio addysg. Rydym wedi ymateb yn gadarnhaol, gan wella a datblygu ein Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) a'n safonau arweinyddiaeth proffesiynol newydd ar gyfer ysgolion.

Gwnaethom lansio'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ar 16 Mai eleni. Mae'r Academi bellach yn weithredol a bydd yn sicrhau, yn meithrin ac yn ysbrydoli arweinwyr nawr ac yn y dyfodol. Mae'n gyfrifol am ddatblygu darpariaeth arweinyddiaeth sy'n cynnwys sicrhau ansawdd a chefnogi pob arweinydd, ble bynnag y bo arni yn ei yrfa, gyda dull mynediad cyffredin at arweinyddiaeth.

Mae'r Academi eisoes wedi ardystio ei rhaglen hyfforddi gyntaf a fydd o fudd i 150 o benaethiaid newydd a thros dro yn y flwyddyn gyntaf, ac mae cylch ardystio pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r bwriad i adolygu a datblygu'r broses ardystio ymhellach. Mae'r Academi yn dechrau lledu ei dylanwad a'i ffocws, gan weithio gyda'r sector ehangach gan gynnwys undebau, Addysg Bellach a phartneriaethau dysgu seiliedig ar waith. Mae hefyd yn dechrau edrych ar ymarfer arloesol y gellir ei ddatblygu.

5. Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a llesiant
Credwn yn gryf bod yn rhaid i'n dysgwyr gael eu cefnogi i fod yn barod yn emosiynol ac yn gorfforol i ddysgu mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Ym mis Ionawr eleni, cafodd y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) Gydsyniad Brenhinol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer dull gweithredu newydd a fydd yn sbarduno gwelliant o ran safonau ac yn helpu dysgwyr hyd at 25 oed i gyflawni eu potensial llawn. Mae hyn yn rhan o Raglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ehangach a gefnogir gan ymrwymiad o £20 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21.

Ni fydd y newidiadau hyn yn ymsefydlu dros nos ond, drwy ein harweinwyr Trawsnewid ADY, rydym yn helpu partneriaid cyflawni i fod yn barod am y system newydd a sicrhau'r newid diwylliannol sydd ei angen i gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran helpu ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr difreintiedig. Mae ein gwerthusiad annibynnol o'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) yn ategu hyn, gan ddangos hefyd bod ysgolion o'r farn bod y cyllid yn amhrisiadwy. Mae'r PDG yn werth £95 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd, a bydd yn codi i £97 miliwn yn 2019-20, gan gynnwys PDG – Mynediad. Ceir llawer o dystiolaeth bod buddsoddiad sy'n mynd i'r afael â rhwystrau yn gynharach mewn addysg yn cael effaith fuddiol ar ddysgwyr. Rydym wedi mwy na dyblu'r PDG Blynyddoedd Cynnar i swm sy'n gyfwerth â £700 fesul dysgwr cymwys i adlewyrchu hyn.

Rwyf wedi cyhoeddi £3 miliwn dros y flwyddyn hon a'r nesaf i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol newydd ar gyfer nodi, cefnogi ac ysbrydoli ein dysgwyr mwyaf abl a thalentog, gan gydnabod bod yn rhaid i ni wneud mwy i nodi, cefnogi ac ymestyn y grwpiau hyn o ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys ymestyn Prosiect Seren er mwyn ysbrydoli mwy o ddysgwyr o oedran cynnar.

Ym mis Medi eleni, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a minnau gydsefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol er mwyn ystyried sut i ymgorffori dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl o fewn dull system integredig.
Bydd gan y Grŵp raglen waith heriol, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a'r argymhellion yn adroddiad *Cadernid Meddwl* y Pwyllgor o fis Ebrill eleni. Ym mis Medi 2017 gwnaethom gyhoeddi'r mewngymorth CAMHS iechyd meddwl i ysgolion, gan ddangos ein bod yn gweithio mewn sawl maes i sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.

Llwyddodd ein rhaglen Bwyd a Hwyl mewn ysgolion i gynnig 2,300 o leoedd i ddysgwyr mewn 16 o awdurdodau lleol a phob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol, gan ddarparu prydau bwyd iach, addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol a sesiynau cyfoethogi i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf.

Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i Gredyd Cynhwysol yn parhau ar lefel y DU. Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi gwneud datganiad yn ddiweddar yn nodi fy mod, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bellach yn bwriadu cyflwyno trothwy incwm net blynyddol o £7,400 i asesu p'un a yw hawlwyr Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ym mis Ebrill 2019.

6. Trefniadau atebolrwydd ac asesu cadarn i ategu system hunanwella i ysgolion
Rhaid bod gan ein system newydd drefniadau atebolrwydd cryf sy'n hybu rhagoriaeth a dyhead i wella. Mae'n amlwg bod ein prosesau presennol, wrth i haenau gael eu hychwanegu dros amser, wedi mynd yn llai cydlynol. Rydym wedi ymrwymo i gytuno ar drefniadau gwerthuso trosiannol gydag ysgolion ac wedi gweithio ym mhob un o'r tair haen i ddatblygu'r gwaith hwn a rhannu ein cynnydd.

I baratoi ac ategu'r trefniadau trosiannol newydd hyn, rydym wedi cyflwyno mesurau perfformiad interim a throsiannol newydd ar gyfer ysgolion uwchradd; wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi cam un y System Genedlaethol Categoreiddio Ysgolion; ac wedi diwygio rheoliadau i roi'r gorau i gyhoeddi data asesiadau athrawon a data'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol islaw'r lefel genedlaethol, er mwyn newid y ffocws i asesu'r disgybl.

Rwy'n disgwyl y bydd ein trefniadau gwerthuso a gwella a Cherdyn Adroddiad Addysg cyntaf Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. Rwyf hefyd yn ystyried goblygiadau'r adolygiad annibynnol o Estyn yng nghyd-destun ein diwygiadau.

Bydd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd hyn yn helpu i sicrhau'r newid diwylliannol sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o weithredu a gwireddu'r cwricwlwm newydd. Mae'r trefniadau yn seiliedig ar bedwar egwyddor allweddol:

- Teg – byddant yn hyrwyddo tegwch, cynhwysiant, dewis a llwybrau dysgu unigol a sicrhau nad ydym byth yn colli golwg ar y dysgwr;
- Cydlynol – galluogi pob rhan o'r system i gydweithio heb orgyffwrdd, gyda rolau a chyfrifoldebau clir;
- Cymesur – sicrhau bod y ffordd y caiff y system a'r broses newydd eu rhoi ar waith yn hydrin ac yn gwneud gwahaniaeth, a bod sybsidiaredd sy'n golygu bod y cyfrifoldeb am ysgolion yn un lleol sydd wedi'i arwain gan ysgolion hunanymwybodol;
- Tryloyw – cydnabod ehangder profiadau dysgu drwy'r ysgol a'r gwerth y mae athrawon yn ei ychwanegu mewn dosbarthiadau.

Yr hyn sydd wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella yw proses hunanarfarnu gadarn a pharhaus ar gyfer pob haen o'r system addysg. Bydd hyn, ynghyd â deialog broffesiynol, yn cefnogi dysgu a gwella, yn ymgorffori cydweithredu, yn magu ymddiriedaeth, yn llywio hunanwelliant ac yn codi safonau i bob un o'n dysgwyr.

Bydd trefniadau gwerthuso a gwella yn seiliedig ar hunanarfarnu, gwirio, cynllunio, cyhoeddi camau gweithredu cryno a chynllun gweithredu a dilysu. Bydd hyn yr un mor berthnasol i ysgolion, Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

Hunanarfarnu – bydd hunanarfarnu yn sbarduno gwelliant i bob dysgwr ac yn ymdrin â'i fan cychwyn, man gorffen, cynnydd, cyd-destun ei gefndir, ei botensial a'i brofiadau. Bydd yn canolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd; bydd yn broses barhaus ac ni fydd yn digwydd ar adeg benodol yn unig.

Gwirio – bydd angen i'r hunanarfarniad gael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchiad gwir a dilys o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

Cynllunio – O ganlyniad i'r hunanarfarnu a'r gwirio, bydd meysydd i'w datblygu'n cael eu nodi a bydd cynllun gwella'n cael ei lunio.

Cyhoeddi camau gweithredu cryno a chynllun gweithredu – Caiff crynodeb o'r cynllun gweithredu ei gyhoeddi ac eir ati i'w roi ar waith a'i gefnogi.

Dilysu - Ar bob lefel, bydd angen elfen o bersbectif allanol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael budd o her angenrheidiol ac nad yw buddiannau a phrofiad y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith yn effeithio arno. Bydd adolygwyr cymheiriaid yn cynnig persbectif allanol i gefnogi'r gwaith o archwilio'r meysydd ar gyfer gwella. Bydd gan Estyn rôl yn y broses o ddilysu hunanarfarniad ysgol a bydd arolygiadau awdurdodau lleol/consortia yn parhau.

I gefnogi'r broses hunanarfarnu, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac Estyn yn cydweithio ag ymarferwyr i gynllunio pecyn cymorth hunanarfarnu a fydd yn sicrhau cydlyniaeth, meini prawf ac iaith gyffredin ar gyfer hunanarfarnu rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, consortia, Estyn a Llywodraeth Cymru. Caiff y pecyn hwn ei rannu a'i dreialu ag ysgolion yn 2019.

Mae Cerdyn Adroddiad Addysg Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar hunanarfarniad y Gyfarwyddiaeth Addysg ac adolygu cymheiriaid gan nifer o systemau o'r Atlantic Rim Collaboratory.

Rydym am sicrhau bod pob plentyn yn cael budd o'n diwygiadau addysgol, a dyna pam rydym wedi datblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer ysgolion bach a gwledig o fewn y system hunanwella i ysgolion. Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Wledig a gyhoeddwyd ym mis Hydref yn dwyn yr holl gamau gweithredu ar gyfer ysgolion gwledig o fewn cenhadaeth ein cenedl ynghyd yn un cynllun cydlynol. Mae hyn yn cynnwys cod trefniadaeth ysgolion newydd a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd ac yn cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Hefyd, gwnaethom gyflwyno grant gwerth £2.5 miliwn y flwyddyn i ysgolion bach a gwledig o 1 Ebrill 2017 er mwyn annog arloesed a chefnogi gweithio o ysgol i ysgol, gan fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu ysgolion bach a gwledig.

Gobeithio bod y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at drafod cynnydd â chi yn sesiwn y Pwyllgor ar 10 Ionawr.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education